# Role Profile

| Rôl | Arweinydd Cynnwys | Lleoliad | Cymru, lleolir gartref.  Bydd teithio mynych yn ofynnol ledled Cymru fel rhan o'r rôl hon. |
|---|---|---|---|
| **Yn atebol i** | Swyddogion Cynnwys | **Yn atebol i** | Cyfarwyddwr Cyswllt - Cymru |
| **Lefel Angori Craidd** | Cymorth | **Teithio** | Mynych ledled Cymru, ac o bryd i'w gilydd drwy'r Deyrnas Unedig ar gyfer cydweithredu neu gyfarfodydd sefydliadol eraill. |
| **Gwiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)** | Oes | **Cyflog \| Gradd** | £41,300 y flwyddyn \| Gradd E2 |
| **Math o Gontract** | Contract cyfnod penodol 18 mis | **Oriau** | 35 awr yr wythnos |

| Diben ac effaith drwodd a thro |
|---|
| Ymunwch â ni a helpwch i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl yr effeithiwyd arnynt gan strôc.<br><br>Y rheswm rydym yn bodoli fel elusen, sy'n tywys ac yn cymell popeth a wnawn, yw i: **Mynd i'r afael â dinistr strôc.**<br><br>I gyflawni hyn, rydym wedi gweithio gyda phobl yr effeithiwyd arnynt gan strôc i greu **tri maes ffocws allanol allweddol:**<br>Helpu goroeswyr strôc a'u hanwyliaid i fyw eu bywydau gorau ar ôl strôc.<br>Catalyddu gweithredoedd gyda llunwyr penderfyniadau i ysgogi gwelliant mewn strôc.<br>Helpu ac ysbrydoli cefnogwyr i wneud eu cyfraniad gorau.<br><br>**Y rôl**<br><br>Mae'r rôl Arweinydd Cynnwys yn rôl newydd ar gyfer y Gymdeithas Strôc yng Nghymru. |

Gan weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn GIG Cymru a Llywodraeth Cymru, bydd y rôl hon yn gosod cyfeiriad strategol i gynnwys ac i weithio'n agos gyda phobl yr effeithiwyd arnynt gan strôc, yn cynnwys goroeswyr strôc, eu gofalwyr, gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid eraill.

Bydd y rôl hon yn gwreiddio diwylliant o gynnwys, gan sicrhau y caiff profiad bywyd cleifion a gofalwyr ei ymgorffori yn yr holl waith yn y dyfodol ac y'i defnyddir i hwyluso gwelliant mewn gwasanaeth.

| **Cyfrifoldebau** | **Mesurir trwy gyflawni** |
|---|---|
| Arwain trwy sicrhau bod profiad bywyd yn llunio gweithrediad dogfennau polisi allweddol, yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Y Datganiad Ansawdd ar gyfer Strôc, a Safonau Gwasanaeth Bywyd ar ôl Strôc yng Nghymru. | Strategaethau a chynlluniau cenedlaethol sydd yn amlwg wedi'u llunio gan brofiad bywyd. |
| Cynorthwyo cynnwys profiad bywyd mewn amrywiol brosiectau a chynigion am gyllid yn ymwneud â strôc yng Nghymru. | Prosiectau a chynigion cyllido sydd yn amlwg wedi'u llunio gan brofiad bywyd. |
| Arwain trwy ddatblygu a gweithredu Strategaeth a Gyd-gynlluniwyd ar gyfer datblygu Safonau Gwasanaeth Bywyd ar ôl Strôc ar gyfer Cymru. | Strategaeth a chynllun gweithredu effeithiol. |
| Arwain trwy gysylltu â chleifion a theuluoedd yn ymwneud â thrafodaethau cymhleth, ingol ac emosiynol ynglŷn â'u profiadau, gan alluogi'r profiadau hynny i gyfrannu tuag at welliannau mewn gofal strôc yn y dyfodol. | Trafodaethau effeithiol ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gyda phobl yr effeithiwyd arnynt gan strôc. |
| Cyfathrebu gwybodaeth hynod sensitif mewn modd empathetig. Darparu a derbyn gwybodaeth hynod gymhleth, sensitif a chynhennus yn llafar, yn ysgrifenedig ac yn electronig i hysbysu adroddiadau. | Tystiolaeth o gyfathrebu effeithiol ar bob lefel. |
| Sicrhau bod profiad bywyd wedi'i ganoli ymhob prosiect a gyd-grëwyd gan y Gymdeithas Strôc a Rhwydwaith Gweithredu Strôc GIG Cymru, ac mai dyma'r grym ysgogol wrth wraidd creu amgylchedd cenedlaethol sy'n gwerthfawrogi ac yn ymgorffori lleisiau'r rheiny sydd wedi cael profiad o strôc eu hunain yn uniongyrchol. | Strategaethau a chynlluniau cenedlaethol sydd yn amlwg wedi'u llunio gan brofiad bywyd. |

| | |
|---|---|
| Recriwtio, datblygu a rheoli dau swyddog cynnwys i gysylltu â phobl yr effeithiwyd arnynt gan strôc, casglu profiad o fywyd, a chynnal cynllunio gwasanaethau, yn unol â'r strategaeth gyd-gynllunio. | Gweithgareddau ymgysylltu a chynnwys effeithiol ledled Cymru. |
| Magu perthnasoedd effeithiol a gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Perfformiad a Gwella GIG Cymru, sefydliadau eraill GIG Cymru, Llais Cymru, sefydliadau Trydydd Sector, Grwpiau Cymunedol Cleifion a Gofalwyr, a chynrychiolwyr eraill Defnyddwyr Gwasanaethau. | Enghreifftiau o weithio cydweithredol. |
| Cydweithredu gyda chydweithwyr ledled disgyblaethau a lefelau i ddarparu mewnwelediad ac adborth cenedlaethol gwerthfawr am brofiadau cleifion strôc a'u gofalwyr, i wella gwasanaethau strôc ledled Cymru yn y pen draw. | Enghreifftiau o weithio cydweithredol. |
| Datblygu diwylliant o gyd-gynhyrchu, ymgysylltu a chynnwys naturiol a thybiedig pobl sydd â phrofiad bywyd o strôc a hyrwyddo partneriaethau cymunedol gyda darparwyr iechyd i sicrhau dull cynhwysfawr o weithredu tuag at wella gwasanaeth. | Strategaethau a chynlluniau cenedlaethol, yn cynnwys cynlluniau i gynnwys pobl yr effeithiwyd arnynt gan strôc. |
| Rheoli'r gyllideb ar gyfer gweithgareddau Ymgysylltu a Chynnwys Bywyd Ar Ôl Strôc, gan sicrhau y defnyddir yr holl adnoddau yn effeithiol, cadw cyllidebau y cytunwyd arnynt o fewn terfynau ariannol penodedig, a gweithredu o fewn polisïau ariannol cymeradwy. | Rheoli cyllideb yn effeithiol. |
| Sicrhau y cedwir cofnodion prydlon, cyfrinachol a chywir, a bod yr holl ddata yn unol â'n polisi cadw gafael ac yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). | Cofnodion cywir a phrydlon.<br>Cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). |
| Cadw at bolisïau a gweithdrefnau'r Gymdeithas Strôc. | Yn gyfarwydd â fframwaith cymhwysedd, yn cynnwys ein gwerthoedd, ein cenhadaeth a'n gweledigaeth. |

| | |
|---|---|
| | Wedi cael at a darllen Llawlyfr y Bobl ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol i'r rôl. |
| Sicrhau y cedwir at y polisïau a'r ddeddfwriaeth yn ymwneud ag oedolion mewn perygl a diogelu plant. Ar yr holl staff y mae'r cyfrifoldeb am fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau unigol ac am roi gwybod am unrhyw bryderon i'ch rheolwr llinell, yr Arweinydd Diogelu a sefydliad allanol priodol os yw'n ofynnol. | Wedi cael at a darllen Llawlyfr y Bobl ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol i'r rôl. |
| Cydweithredu gyda chydweithwyr mewn timau Effaith ar Ardal, Cynnwys ac amrywiol dimau eraill ledled y sefydliad i gysoni â, a chynorthwyo, gwaith ehangach yr elusen. | Enghreifftiau o weithio cydweithredol. |

| **Manyleb y Person** |
|---|
| **Hanfodol**<br>1. Profiad ymarferol profadwy o gynnwys cleifion.<br>2. Gwybodaeth fanwl am ddeddfwriaeth, strategaethau a methodolegau cleifion a'r cyhoedd.<br>3. Dealltwriaeth gref o hwyluso grwpiau a dynameg grwpiau, gyda'r gallu i hyfforddi a chynorthwyo staff i hwyluso trafodaethau grŵp cynhwysol, wedi'u rheoli'n dda sy'n cyflawni canlyniadau eglur.<br>4. Profiad profadwy o weithio'n annibynnol a heb oruchwyliaeth, gan ddefnyddio'ch menter eich hun a bod yn atebol am eich gweithredoedd eich hun.<br>5. Profiad profadwy o gyfathrebu â phob lefel o weithwyr gofal iechyd proffesiynol, cleifion, gofalwyr, ac aelodau o'r cyhoedd.<br>6. Profiad ymarferol o ddulliau ymchwil cymdeithasol ansoddol a meintiol a dadansoddi data.<br>7. Profiad profadwy o baratoi a chyflwyno adroddiadau i amrywiaeth o gynulleidfaoedd.<br>8. Parodrwydd a gallu i deithio ledled Cymru.<br>9. Hyfedr wrth ddefnyddio systemau Technoleg Gwybodaeth a chymwysiadau Microsoft 365 i reoli gwybodaeth, i gyfathrebu'n effeithiol ac i gynorthwyo cadw cofnodion cywir.<br>10. Gwybodaeth a dealltwriaeth o brofiad bywyd ac effaith ehangach strôc. |

11. Profiad profadwy o gydweithredu gyda grwpiau 'nas clywir yn fynych'.
12. Gwybodaeth am strwythurau a pholisïau allweddol GIG Cymru – yn enwedig gwasanaethau strôc.
13. Mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn fanteisiol.